# Helpwr Heddiw

## Bl. 5 + 6

Beth ydy dy enw di?

Tom ydw i
(Tom ydy fy enw i)

Siân ydw i
(Siân ydy fy enw i)

Mrs Evans ydw i
(Mrs Evans ydy fy enw i)

# Sut wyt ti'n teimlo?

Dw i....
ar ben y byd /
wrth fy modd achos
dw i 'n dwlu ar chwarae gyda ffrindiau yn yr ysgol.

Dw i 'n teimlo'n ofnadwy /
drist iawn achos mae 'n gas 'da fi mathemateg achos mae 'n anodd.

Mae pen tost gyda fi achos mae annwyd arna i ac es i i 'r gwely'n hwyr.

## Beth sy'n bod?

Mae cefn tost gyda fi ac mae bola tost gyda fi hefyd.
Mae pen tost gyda fi achos dw i wedi blino.
Mae clust dost/ clustiau tost gyda fi.

Mae'r ffliw arna i.
Mae annwyd arna i. (cold)
Mae'r ddannoedd arna i. (toothache)

## Beth sy'n bod ar Sam?

Mae trwyn tost gyda Sam ond mae ceg tost gyda fi.
Mae'r frech goch ar Sam ond dw i 'n teimlo'n fendigedig.

# Sut mae'r tywydd heddiw?

(Remember to extend your sentences)

Mae hi'n gymylog ac yn wyntog.
Mae hi'n bwrw glaw ond dydy hi ddim yn oer.
Mae hi'n heulog ac yn braf ond dydy hi ddim yn boeth.

Mae hi'n ddiflas heddiw achos mae hi'n gymylog ac yn wyntog.
Mae hi'n fendigedig achos mae hi'n heulog ac yn boeth.

Mae hi'n ddiflas ym Merthyr bore 'ma.
Dydy hi ddim yn heulog ym Mhenybont.

Mae hi'n bwrw glaw, gwaetha'r modd.
Mae hi'n heulog o'r diwedd achos roedd hi'n bwrw glaw y bore 'ma.

Ydy hi 'n boeth?
Ydy, mae hi 'n boeth ac yn braf.
Nag ydy, dydy hi ddim yn boeth ond mae hi 'n stormus.

# Sut fydd/ oedd y tywydd?

(Remember to extend your sentences)

Sut oedd y tywydd ddoe?
Roedd hi'n niwlog ac yn oer ddoe a doedd hi ddim yn heulog.
Roedd hi'n sych ddoe ond mae hi'n wlyb heddiw.
Roedd hi'n braf yn y bore ond roedd hi'n wlyb yn y prynhawn.
Doedd hi ddim yn stormus ddoe ond roedd hi'n bwrw hen wragedd a ffyn.

Sut fydd y tywydd yfory?
Bydd hi'n rhewi ac yn bwrw eira yfory.
Bydd hi'n wyntog ac yn oer bore yfory ond bydd hi'n braf yn y prynhawn.
Fydd i ddim yn bwrw glaw yfory, gobeithio bydd hi'n boeth iawn.

# Ble rwyt ti'n byw?

Dw i'n byw yng Nghwmdâr, yn Aberdâr.
Dw i'n byw ym Mhontypridd yn y Rhondda.
Dw i'n byw yn Y Barri ger Caerdydd.
Dw i'n byw yn 28 Stryd y Bont, ym Merthyr mewn fflat gyda fy mam o'r enw Emily. Mae fy mam yn hoffi coginio yn y gegin.
Dw i'n byw ym Mhorthcawl ger Penybont gyda fy nheulu, dw i'n dwlu ar fyw ym Mhorthcawl achos mae llawer o bethau i wneud.
Dw i'n byw yn Nowlais, dw i'n hoffi byw yn Nowlais achos mae'n gyffrous a mae fy ffrindiau yn byw yno hefyd.

# Faint ydy dy oed di?

Dw i'n ddeg mlwydd oed ond yn unarddeg ym mis Awst.

Dw i'n naw oed ond mae fy mrawd yn saith oed. Mae fy mrawd yn hoffi chwarae ar y Xbox.

# Pryd mae dy benblwydd di?

Mae fy mhenblwydd ym mis Medi, Medi 10fed.

Penblwydd fy chwaer ym mis Mehefin. Mae hi'n hoffi canu a dawnsio.

Roedd fy mhenblwydd ym mis Hydref. Ces i arian.

# Oes chwaer gyda ti?

Oes, mae chwaer gyda fi o'r enw Lucy. Mae hi'n dal ac yn denau. Mae Lucy yn dwlu ar gymnasteg.

Oes, mae dwy (2) chwaer gyda fi, Bethan a Rhian. Mae Bethan yn saith oed ac mae Rhian yn naw oed.

Oes, mae tair (3) chwaer gyda fi ac un brawd. Mae e'n ddrwg ond mae'r merched yn dda iawn.

Nag oes, does dim chwaer gyda fi ond mae brawd gyda fi o'r enw Jac. Mae e'n dwlu ar rygbi.

Nag oes, does dim chwaer na brawd gyda fi, unig blentyn ydw i.

# Oes brawd gyda ti?

Oes, mae brawd gyda fi o'r enw Liam. Mae e'n ddoniol iawn. Mae e'n dwlu ar nofio.

Oes, mae dau frawd gyda fi, Simon a Gareth. Mae Simon yn ddeg oed ac mae Gareth yn un oed.

Oes, mae tri brawd gyda fi ac mae un chwaer gyda fi o'r enw Elen.

Nag oes, does dim brawd gyda fi ond mae chwaer gyda fi o'r enw Sali. Mae hi'n gallu canu yn dda iawn.

Oes, mae brawd gyda fi o'r enw Joshua ond does dim chwaer gyda fi.

Nag oes, does dim brawd na chwaer gyda fi, unig blentyn ydw i.

# Oes anifail anwes gyda ti?

Oes, mae ci gyda fi o'r enw Penny. Mae hi'n ddu a gwyn. Mae hi'n dwlu ar chwarae gyda fi. Mae Penny yn bwyta bwyd tun.

Oes, mae cwningen gyda fi o'r enw Bugs. Mae Bugs yn chwech oed ac mae e'n dwlu ar fwyta moron. Mae Bugs yn byw mewn caets.

Oes, mae parot a bydji gyda fi ac maen nhw'n dwlu ar siarad.

Nag oes, does dim anifail anwes gyda fi ond mae cath gyda fy mamgu o'r enw Ginger. Mae Ginger yn hoffi bwyta bisgedi ac mae hi'n yfed llaeth.

# Beth wyt ti'n wisgo?

Dw i'n *gwisgo* siaced las a ffrog binc i fynd i'r parti.

Dw i'n *gwisgo* siwmper goch a jîns glas i chwarae yn y parc.

Dw i'n *gwisgo* sgarff a het achos mae hi'n oer, yn anffodus.

Dw i'n *gwisgo* crys rygbi Cymru, fy hoff ddillad ydy crys rygbi achos dw i'n cefnogi Cymru.

Dw i'n *gwisgo* sanau llwyd ac esgidiau du i fynd i'r ysgol. Dw i ddim yn hoffi llwyd, mae'n ddiflas, dw i'n dwlu ar goch.

Dw i'n *gwisgo* crys coch a siorts gwyrdd i'r ganolfan hamdden ar ddydd Sadwrn.

# Beth wyt ti'n wisgo ...........?

Beth wyt ti'n wisgo i'r disgo?
Beth wyt ti'n wisgo i'r parc?
Beth wyt ti'n wisgo i'r dref?
Beth wyt ti'n wisgo i'r gwely?
Beth wyt ti'n wisgo i'r ganolfan hamdden?
Beth wyt ti'n wisgo i lan y môr?

# Wyt ti'n gwisgo ……?

Wyt ti'n gwisgo het?
Ydw, dw i'n gwisgo het achos mae hi'n heulog / oer.
Nag ydw, mae'n gas 'da fi wisgo het, mae'n well 'da fi wisgo sbectol haul.

Wyt ti'n gwisgo siorts?
Ydw, dw i'n gwisgo siorts achos dw i'n mynd i chwarae pêl droed yn y parc gyda fy ffrindiau.
Nag ydw, achos mae hi'n oer.
Nag ydw, dw i ddim yn gwisgo siorts ond dw i'n gwisgo 'skins'/ tracwisg achos dw i'n chwarae rygbi ar ôl ysgol.

Wyt ti'n gwisgo siwt nofio?
Ydw, dw i'n gwisgo siwt nofio goch ond mae'n well 'da fi siwt nofio ddu.
Nag ydw, dw i ddim yn gwisgo siwt nofio, dw i'n gwisgo siwt wlyb i syrffio ym Mhorthcawl.

# Beth mae Sam yn wisgo?

Mae Sam yn gwisgo het haul ond dw i'n gwisgo sbectol haul achos mae hi'n heulog ac yn braf heddiw.

Mae Sam yn gwisgo ffrog goch a sanau gwyn ond dydy hi ddim yn gwisgo esgidiau. Mae hi'n mwynhau gwisgo dillad coch.

Mae Sam yn gwisgo crys rygbi achos mae e'n / hi'n dwlu ar rygbi. Mae Sam yn cefnogi'r Gweilch (the Ospreys).

## Oes … gyda Sam?

Oes siaced gyda Sam?

Nag oes, does dim siaced gyda Sam ond mae cot law gyda fe / hi achos mae hi'n bwrw glaw, yn anffodus.

# Beth wyt ti'n hoffi/ mwynhau wneud?

Dw i'n hoffi darllen a dw i'n hoffi canu.

Dw i'n mwynhau siopa a mynd i'r sinema gyda fy ffrindiau.

Dw i'n hoffi chwarae rygbi a gwneud carati ar ôl ysgol.

Dw i'n dwlu ar nofio achos mae'n llawer o hwyl ond mae'n gas 'da fi ddarllen achos mae'n wastraff amser.

Dw i'n hoffi chwarae hoci achos mae'n gyffrous iawn.

Dw i'n mwynhau dawnsio achos dw i'n dwlu ar ddawnsio stryd.

Dw i'n dwlu ar golff achos mae'n wych ac yn gyffrous.

Dw i'n mwynhau chwarae pêl rwyd achos mae'n cadw fi'n heini.

Dw i'n dwlu ar gymnasteg achos mae'n cadw'n fi heini ond mae'n well 'da fi chwarae rygbi gyda fy ffrindiau achos mae'n hwyl.

# Wyt ti'n hoffi / mwynhau ... ?

Ydw, dw i'n hoffi gwylio ffilmiau antur ond dw i ddim yn hoffi gwylio ffilmiau Disney achos maen nhw'n dwp.

Dw i'n dwlu ar fynd i siopa ond mae'n gas 'da fi fynd i'r ganolfan hamdden achos mae'n wastraff amser.

Nag ydw, dw i ddim yn mwynhau gwylio rygbi a dw i ddim yn gallu chwarae rygbi o gwbl.

Dw i'n dwlu ar chwarae rygbi ond dw i ddim yn hoffi mynd i Stadiwm y Mileniwm achos mae'n rhy swnllyd.

Dw i'n mwynhau dawnsio ond mae'n gas 'da fi wylio 'Strictly' ar y teledu achos mae'n ddiflas iawn.

# Cofiwch / Remember

Dw i'n hoffi ...... - I like ......
Dw i'n mwynhau ...... - I enjoy ......
Dw i'n dwlu ar ...... - I love ......
Mae'n gas 'da fi ...... - I hate .......

Mae'n well 'da fi ..... - I prefer ......
........achos ..... because.....

..mae'n wych/ grêt (it's great)
..mae'n llawer o hwyl (it's lots of fun)
..mae'n fendigedig (it's fantastic)
...mae'n gyffrous iawn (it's very exciting)

..mae'n sbwriel (it's rubbish)
..mae'n ofnadwy (it's terrible)
..mae'n ddiflas (it's miserable / boring)
..mae'n wastraff amser (it's a waste of time)

## Beth wyt ti'n hoffi fwyta ....... i frecwast / i ginio / i de/ i swper?

Dw i'n hoffi bwyta tost a jam i frecwast, gyda sudd oren.
Dw i'n mwynhau bwyta brechdanau caws, creision a mefus i ginio.
Dw i'n dwlu ar fwyta sglodion a byrgyr i de.
Dw i'n mwynhau teisen siocled a hufen iâ achos mae'n flasus iawn ond mae'n well 'da fi losin.

Dw i'n dwlu ar .. (I love...)
Mae'n well 'da fi .. na ... (I prefer ... to ...)
Mae'n gas 'da fi .. (I hate...)

.....achos mae'n flasus iawn (it's very tasty)
dda i fi / chi (good for me / you)
ddrwg i fi / chi (bad for me / you)
ych a fi!

## Beth wyt ti'n gallu wneud?

Dw i'n gallu chwarae pêl fasged, rygbi, pêl droed a nofio yn dda iawn.

Dw i'n gallu chwarae pêl rwyd yn dda iawn; dw i'n chwarae pêl rwyd i dîm yr ysgol ac i dîm yr Urdd.

Dw i'n gallu gwneud gymnasteg yn wych; dw i'n mynd i'r clwb gymnasteg pob bore dydd Sadwrn ond mae'n well 'da fi rygbi achos dw i'n cefnogi'r Gweilch (the Ospreys).

## Beth wyt ti'n gallu wneud?

Dw i'n gallu merlota yn dda iawn ond dw i ddim yn gallu dringo o gwbl.

Dw i'n gallu sgipio yn gyflym ond dw i ddim yn gallu sglefrolio, mae'n anodd.

Dw i'n gallu seiclo yn y parc ond dw i ddim yn gallu reidio beic modur.

Dw i'n gallu nofio yn dda iawn ond dw i ddim yn hoffi syrffio achos mae'n wastraff amser.

Beth wyt ti'n hoffi wneud?
Beth wyt ti'n mwynhau wneud?
Beth wyt ti'n gallu wneud?
Beth wyt ti eisiau wneud?

Beth wyt ti'n hoffi wisgo?
Beth wyt ti'n hoffi fwyta?
Beth wyt ti'n hoffi chwarae?

Faint o'r gloch ydy hi?

Mae hi'n hanner awr wedi / chwarter i / chwarter wedi saith.
Mae hi'n unarddeg o'r gloch.
Mae hi'n ddeuddeg o'r gloch.
Mae hi'n amser cinio.

Pryd wyt ti'n chwarae rygbi?

Dw i'n chwarae rygbi ar ddydd Gwener yn y clwb rygbi gyda fy mrawd am hanner awr wedi chwech.

Pryd mae Sam yn nofio?

Mae Sam yn nofio yn y ganolfan hamdden ar ddydd Sul gyda ffrindiau. Mae e'n mwynhau nofio achos mae'n llawer o hwyl ond dydy Sam ddim yn mwynhau dawnsio achos mae'n wastraff amser.

Beth wyt ti wedi bod yn wneud?

Dw i wedi bod yn wneud jwdo yn y ganolfan hamdden gyda fy ffrind. Ces i amser gwych.

Beth hoffet ti wneud?

Hoffwn i fynd i'r sinema a McDonald's gyda ffrindiau ar ddydd Sadwrn.

## Beth ydy dy hoff raglen deledu?

Fy hoff raglen deledu ydy *Sponge Bob* achos mae'n llawer o hwyl ond dw i ddim yn mwynhau *Masterchef* achos mae'n wastraff amser.

## Beth ydy dy hoff dîm pêl-droed?

Fy hoff dîm pêl-droed ydy *Chelsea* achos maen nhw'n chwarae yn dda iawn. Dw i'n cefnogi *Chelsea* ond mae'n gas 'da fi *Manceinion Unedig* (*Man U*).

## Beth ydy dy hoff fwyd?

Fy hoff fwyd ydy pitsa. Fy hoff bitsa ydy pitsa peperoni achos dw i'n dwlu ar gig (meat), dw i'n meddwl bod pitsa yn flasus iawn. Dw i ddim yn mwynhau llysiau achos maen nhw'n ych a fi ond maen nhw'n dda i chi.

## Beth welaist ti ar y teledu?

*Gwelais* i 'Ant and Dec's Saturday night takeaway', roedd hi'n ddoniol iawn.

## Welaist ti 'Britain's Got Talent'?

Do, roedd hi'n *gyffrous* iawn.
Naddo, *gwelais* i X Factor.

## Beth fwytaist ti?

Bwytais i bitsa, ces i sudd oren hefyd. Roedd e'n flasus iawn.

## Beth chwaraeaist ti?

*Chwaraeais* i rygbi *gyda* ffrindiau yn y parc. *Ces* i lawer o hwyl.

## Beth wyt ti'n feddwl o 'One Direction'?

Yn fy marn i, dw i'n meddwl bod One Direction yn sbwriel achos dydy Harry Styles ddim yn gallu canu.

## Beth wyt ti'n feddwl o Man U?

Dw i'n meddwl bod Manceinion Unedig (Man U) yn wastraff amser. Yn fy marn i, mae'n well 'da fi Lerpwl na Manceinion Unedig. Fy hoff dîm pêl-droed ydy Lerpwl. Wyt ti'n cytuno?

## Beth wyt ti'n feddwl o siocled?

Fy hoff fwyd ydy siocled. Yn fy marn i, mae siocled yn flasus iawn, mae'n well 'da fi siocled na sglodion achos dw i'n meddwl bod sglodion yn ych a fi!

### Ble est ti ar wyliau?

Es i i Sbaen, ces i amser da.

### Sut est ti?

Es i mewn awyren. Dw i'n hoffi teithio mewn awyren achos mae'n gyffrous iawn.

### Gyda pwy est ti?

Es i i Sbaen mewn awyren gyda fy nheulu, mam, dad a fy chwaer o'r enw Siân.

### Beth gest ti?

Ces i amser gwych, bwytais i bitsa.
Chwaraeais i denis bob dydd.